# FINCH, HAROLD JOSIAH (1898-1979), gwleidydd Llafur



**Enw:** Harold Josiah Finch
**Dyddiad geni:** 1898
**Dyddiad marw:** 1979
**Priod:** Gladys Finch (née Hinder)
**Rhiant:** Emmie Finch (née Keedwell)
**Rhiant:** Josiah Coleman Finch
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gwleidydd Llafur
**Maes gweithgaredd:** Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
**Awdur:** John Graham Jones

Ganwyd ef yn y Barri ar 2 Mai 1898, yn fab i Josiah Coleman Finch, arolygwr ar y rheilffyrdd, ac Emmie Keedwell. Addysgwyd ef yn ysgol elfennol y Barri. Gweithiodd fel clerc i Gwmni Rheilffyrdd y Barri, 1912-19, ac yna fel clerc i Swyddfa Glowyr Ardal Cwm Tredegar. Bu'n ysgrifennydd i Ardal Tredegar o Ffederasiwn Glowyr De Cymru, 1919-34. Bu hefyd yn ysgrifennydd iawndal i Ffederasiwn Glowyr De Cymru, ac yna'n ysgrifennydd i ardal De Cymru o Undeb Cenedlaethol y Glowyr, 1935-50. Gwasanaethodd Finch hefyd yn aelod o Gyngor Dinesig Mynyddislwyn, 1922-33, gan ddod yn gadeirydd arno ym 1932-33.

Etholwyd ef yn AS Llafur dros etholaeth Bedwellte, fel olynydd i Syr Charles Edwards, ym 1950, a daliodd i gynrychioli'r etholaeth yn y senedd am yr ugain mlynedd nesaf, gan ymddeol o'r senedd adeg etholiad cyffredinol Mehefin 1970. Roedd yn aelod o Bwyllgor Gwaith Undeb Cenedlaethol y Glowyr, 1951-60, llefarydd yr wrthblaid ar ynni a ph er, 1959-60, ysgrifennydd Gr p Seneddol y Glowyr, 1964-66, a gwasanaethodd hefyd yn gadeirydd ar y Blaid Seneddol Gymreig. Bu'n weinidog iau yn y Swyddfa Gymreig, Hydref 1964-Ebrill 1966, gan gydweithio'n ddedwydd gyda James Griffiths, yr Ysgrifennydd Gwladol cyntaf dros Gymru. Roedd Finch hefyd yn llywydd Cymdeithas Goffa Islwyn. Urddwyd ef yn farchog ym 1976.

Priododd ym mis Medi 1922 Gladys, merch Arthur Hinder, a bu iddynt un mab ac un ferch. Roedd cartref y teulu ym Mhontllanfraith, ac yn Llundain bu Finch yn lletya yn 56 Kenwyn Road, Clapham Common. Cyhoeddodd nifer o weithiau ar anafiadau diwydiannol ac ar iawndaliadau. Ym 1972 cyhoeddodd gyfrol fechan o atgofion o dan y teitl *Memoirs of a Bedwellty MP*. Mae gr p bychan o'i bapurau yng ngofal Archif Maes Glo De Cymru, Prifysgol Cymru, Abertawe. Bu farw Harold Finch ym 1979. Ei olynydd fel AS Llafur dros Fedwellte oedd Neil Kinnock.

## Awdur

**Dr John Graham Jones**

## Ffynonellau

Harold Finch, *Memoirs of a Bedwellty MP* (1979)

*Mynegai ANW*

*Etholiadau'r Ganrif, 1885-1997* (Talybont 1999)

*Welsh Hustings - 1885-2004* (Rhydaman 2005)

*Dod's Parliamentary Companion*

## Darllen Pellach

Archifau LlGC: Parliamentary Division of Bedwellty... Harold J. Finch, The Labour Candidate

Archifau LlGC: Parliamentary Division of Bedwellty. Polling day: Thursday October 25th 1951... Harold J. Finch The Labour Candidate

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q16008683

**Dyddiad cyhoeddi:** 2009-07-27

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu